| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 MEDI 2025** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYDLU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 5 Medi 2024**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R CYNGOR | Derbyn cynnwys yr adroddiad.<br>Nodyn: Ychwanegu i'r daflen penderfyniad:<br>• Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau'r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel<br>• Dymuniad y Pwyllgor i dderbyn hyfforddiant Ffordd Gwynedd | **1. Dim sesiwn wedi ei drefnu hyd yma - angen cadarnhau cynnwys y sesiwn er mwyn i swyddogion o'r Adran Tai ac Eiddo baratoi'n addas.**<br>**2. Mae hyfforddiant Ffordd Gwynedd wedi ei gynnal ar gyfer aelodau'r Cabinet ar 13 Mai 2025 a sesiwn i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei gynnal ar 4 Mehefin 2025.** |
| DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2023/24 | Derbyn yr adroddiad.<br>Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo<br>Nodyn:<br>• Angen ail ystyried sgôr tebygolrwydd Cyfreithlondeb | **Mae'r sgôr Cyfreithlondeb wedi cael ei ystyried gan y Grŵp Llywodraethu (gan gynnwys y Swyddog Monitro) sydd wedi dod** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Angen ystyried adolygu'r cwestiynau ac addasu'r ddogfen i fod yn eglur i drigolion Gwynedd - er yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, awgrym i ystyried cyfuno gyda'r asesiad o drefniadau llywodraethu sydd wedi ei gynnwys yn Hunanasesiad Cyngor Gwynedd i osgoi dyblygu gwaith | **i gasgliad fod y sgôr presennol yn briodol.**<br><br>**Arddull y ddogfen wedi cael ei ystyried wrth baratoi Datganiad 2024/25 sydd yn eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.** |
| ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD (drafft) CYNGOR GWYNEDD 2023/24 | Derbyn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad Drafft 2023/24.<br>Nodyn:<br>1. Angen ystyried trefniadau ymgynghori priodol i'r dyfodol i sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd yn y broses<br>2. Angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses – awgrym i gynnal gweithdy gyda'r Aelodau fel bod y Pwyllgor yn cael mewnbwn a gwell cyfle i gynnig argymhellion<br><br>Prosiectau Gwynedd Yfory<br>• Moderneiddio Adeiladau ac Amgylchedd Dysgu - ychwanegu bod arolygiad RAC wedi ei gynnal<br>• Hyrwyddo Llesiant Plant a Phobl Ifanc - ychwanegu bod cynlluniau / ymgyrchoedd yn eu lle gan yr Adran Addysg i wella presenoldeb disgyblion<br>• Ymestyn Cyfleoedd Chwarae a Chymdeithasu – ychwanegu cefnogaeth ariannol ychwanegol gan y Cyngor i Ganolfannau Byw'n Iach – hyn wedi bod yn benderfyniad positif | **2. Prif faterion wedi eu hadnabod er mwyn eu cynnwys o fewn ddogfen hunanasesiad erbyn Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Mai 2025 fel eu bod yn cael darparu mewnbwn yn gynt i'r broses o lunio'r hunanasesiad. Yn unol â'r drefn arferol, bwriedir cyflwyno drafft o'r ddogfen i'r Pwyllgor er mwyn cyflwyno argymhellion a derbyn adborth /sylwadau. Rhagwelir y bydd yn cael ei gyflwyno ym Mhwyllgor Hydref.** |

**Cyfarfod 10 Hydref 2024**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| ARCHWILIO CYMRU: GOFAL BRYS AC ARGYFWNG: 'LLIF ALLAN O'R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU' | • Derbyn cynnwys yr adroddiad<br>• Cyflwyno diweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis | **Disgwylir diweddariad ymhen 12 mis.** |

**Cyfarfod 28 Tachwedd 2024**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2023-24 | • Derbyn yr adroddiad<br>• Derbyn cynnig Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol i gyflwyno adroddiad pellach fydd yn gosod cyd-destun i bolisïau a threfniadau gwella gwasanaeth | **Mae cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol wedi ei raglennu ar gyfer y cyfarfod yma.** |

**Cyfarfod 16 Ionawr 2025**

| | | |
|---|---|---|
| CYLLIDEB REFENIW 2024 / 25 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2024 | • Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau<br>• Cytuno gyda'r argymhellion i'r Cabinet:<br><br>Nodyn:<br>1 Gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant - cais i'r Cabinet herio beth yw amserlen y gwaith yma – angen sicrwydd bod y gwaith yma yn ei le i osod cyllideb<br>2 Gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i egluro manylder y darlun yng ngofal Plant, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a rhaglen glir i ymateb. – angen cyflwyno dadansoddiad manylach o'r gwaith i'r Pwyllgor<br>3 Cais am wybodaeth ar sut mae rhagolygon ariannol Gwynedd yn cymharu gyda Chynghorau eraill<br>4 Gwybodaeth am incwm uwch gan y gwasanaeth profedigaeth marwolaethau, diffyg incwm parcio a manylion 'pres y pen' i'w rannu'n uniongyrchol gyda'r Cyng. Angela Russell | **Mae'r camau hyn bellach wedi eu gweithredu. Bydd adolygiad diwedd Awst 2025 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref er mwyn darparu diweddariad ar y sefyllfa ariannol.** |

| | | |
|---|---|---|
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol<br>• Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion<br><br>Nodyn:<br>• Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w chyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026<br>• Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch | **Disgwylir i'r pwyntiau gweithredu yma gael eu cwblhau yn amserol.**<br><br>**O ran adroddiad CIPFA -**<br>**Mae'r adroddiad drafft wedi cael ei dderbyn gan CIPFA ac yn y broses o gael ei derfynu. Bydd amserlen gweithredu yn cael ei addasu i adlewyrchu hynny.** |
| BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR | • Derbyn y Rhaglen waith ar gyfer Chwefror 2025 – Ionawr 2026<br><br>Cais i ychwanegu:<br>• Rhaglen Datblygu'r Pwyllgor<br>• Blaenraglen Archwilio Mewnol<br>• Blaenoriaethau Archwiliadau – dilyniant i argymhellion<br>• Mwy o wybodaeth am Ffordd Gwynedd<br><br>• Dilyniant i wybodaeth ar sefyllfa ariannol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd<br><br>• Angen cynnal sgwrs rhwng yr adrannau perthnasol i drafod effaith gwrthod cynlluniau tai fforddiadwy ar ysgolion Gwynedd i'r dyfodol | • **Hyfforddiant Ffordd Gwynedd wedi ei gynnal i Aelodau'r Pwyllgor ar 4 Mehefin 2025. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad/diweddariad gan Bennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod cyfarfod Mai 2025.**<br>• **Rhoddwyd sylw i'r mater 'effaith gwrthod cynlluniau tai fforddiadwy ar ysgolion' ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau Ionawr 23 gydag awgrym i'w gynnwys ar raglen y Pwyllgor Craffu Addysg ag Economi.** |

**Cyfarfod 6 Chwefror 2025**

| | | |
|---|---|---|
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR | • Derbyn cynnwys yr adroddiad<br><br>Nodyn:<br>• Dwy sedd wag gan Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor. Pennaeth Cyllid, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith a Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau i drafod a cheisio ysgogi diddordeb. | **Bu i'r Cyngor Llawn, yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf, 2025, benodi 3 aelod lleyg i'r seddau gwag ar y Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio. Mae pob sedd aelod lleyg nawr wedi eu llenwi.** |
| ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG – GOFAL CARTREF | • Derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau arolwg Archwilio Mewnol a'r drefniadau Gofal Cartref y Cyngor<br>• Croesawu'r Rhaglen Waith drylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth<br>• Bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith | **Disgwylir i'r pwynt gweithredu perthnasol gael ei gwblhau yn amserol.** |

**Cyfarfod 22 Mai 2025**

| | | |
|---|---|---|
| ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2025 - 2026 | • Ail ethol Carys Edwards yn Gadeirydd y pwyllgor hwn ar gyfer 2025 - 2026 | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD AR GYFER 2025 - 2026 | • Ail ethol Elwyn Rhys Parry yn Ddirprwy Gadeirydd y pwyllgor hwn ar gyfer 2024-25 | **Dim Gweithrediad Pellach** |
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR | • Derbyn cynnwys yr adroddiad Nodyn: Tair sedd wag Aelod Lleyg ar y Pwyllgor - cyfweliadau i'w cynnal ym mis Mehefin gyda'r gobaith o gyflwyno enwau i'r Cyngor Llawn 3/07/25 | **Y swyddi gwag wedi cael eu llenwi, gyda phenderfyniad y Cyngor ar 3 Gorffennaf 2025.** |
| CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | • Nodi a chymeradwyo Cylch Gorchwyl Diwygiedig Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | **Dim Gweithrediad Pellach.** |

| | | |
|---|---|---|
| HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD | • Derbyn adroddiad drafft 2024 /25 o HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD<br>Sylwadau:<br>• Cynllun Penrhos - angen pwyslais ar ddatblygiad gwasanaethau gofal ym Mhenrhos ac nid tai yn unig<br>• Strategaeth Llifogydd – ystyriaeth i'r brif ffordd A499<br>• Effeithiau Erthygl 4<br>• Dyfodol Cynllun ARFOR – sicrwydd parhad i'r Cynllun<br>• Trefniadau Diogelu Ysgolion – angen sylw pellach | **Mae'r pwyntiau yma yn derbyn sylw ar hyn o bryd yn ystod y broses o lunio fersiwn ddrafft o'r hunanasesiad. Bwriedir cyflwyno'r drafft i'r Pwyllgor ym mis Hydref cyn cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn.** |
| CYFRIFON TERFYNOL 2024/25 – ALLDRO REFENIW | • Derbyn yr adroddiad a nodi'r risgiau perthnasol | **Dim Gweithrediad pellach.** |
| RHAGLEN GYFALAF 2024-25 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2025) | • Derbyn y wybodaeth a nodi'r risgiau yn ymwneud â'r rhaglen gyfalaf | **Dim Gweithrediad pellach.** |
| CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025 | • Derbyn yr adroddiad Cymeradwyo:<br>• Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2024/25<br>• Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru<br>• Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen yn electroneg | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| ADRODDIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS | • Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth | **Dim Gweithrediad Pellach.** |

| | | |
|---|---|---|
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol<br>• Bod angen cynnwys amserlen i'r camau gweithredu<br>• Bod angen adroddiad yn nodi dilyniant ar yr hyn sydd yn cael ei gyflawni | **Er bod y pwyntiau yma yn rhan o daflen penderfyniadau Mai 2025, bu trafodaeth bellach yn ystod y cyfarfod lle atgyfnerthwyd y pwyntiau. Yn ychwanegol nodwyd yr angen i'r Pwyllgor weithredu ei hawliau i alw ar y swyddogion er mwyn derbyn diweddariad neu wybodaeth ychwanegol yn sgil adroddiadau Archwilio Mewnol.** |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2024 - 2025 | • Derbyn yr adroddiad yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2024/25 | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| SIARTER ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol<br>• Cefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau. | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2025/26 | • Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25<br>• Cefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl. | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU A'R YMATEB SEFYDLIADOL - GOFAL CARTREF | • Derbyn yr adroddiad ac ymateb y Cyngor i'r argymhellion | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| ARCHWILIO CYMRU - CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2024 A CHYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2025 CYNGOR GWYNEDD | • Derbyn yr adroddiadau | **Dim Gweithrediad Pellach.** |

| | | |
|---|---|---|
| CYFLWYNO CANFYDDIADAU ARCHWILIAD Y COMISIYNYDD GWYBODAETH (ICO) I DREFNIADAU'R CYNGOR O RAN YMATEB I GEISIADAU A WNEIR O DAN Y DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH (2000) A RHEOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL | • Derbyn a nodi cynnwys adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | **Dim Gweithrediad Pellach.** |
| BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR | • Derbyn y rhaglen waith ar gyfer Medi 2025 – Mai 2026<br>Nodyn: Dileu Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Gwynedd 2024 gan ei fod eisoes wedi ei gyflwyno | **Yr eitem berthnasol wedi ei ddileu, dim gweithrediad Pellach.** |

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.